## ORINDA

*Doh* C. *Yn llawen a bywiog.* ALUN DAVIES.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| :d.r | m :d :f .l | s :— :m .s | d' :–.d' :r' .d' | t :— ‖ |
| :d.l, | d :d :r .r | m :— :m .r | d :m :r .fe | s :— ‖ |
| :m.f | s :s :l .t | d' :— :s .s | l :–.l :l .r' | r' :— ‖ |
| :d.d | d :m :r .f | m :— :d .t, | l, :l .s :fe .r | s :— ‖ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| :t .s | d' :m' :r' .d' | r' :— :d' .r' | m'.d':r' :r' | d' :— ‖ |
| :s .s | s :m :f .s | l :s :m .s | s .s :l :s .f | m :— ‖ |
| :r'.t | d' :–.t:l .d' | d' :t :d' .t | d'.d':d' :t | d' :— ‖ |
| :s .f | m :d :r .m | f :s :l .s | d'.m :f :s | d :— ‖ |

Athro da, ar ddechrau'r dydd
Dysg ni oll yng ngwersi'r Ffydd,
Boed ein meddwl i Ti'n rhodd
A'n hewyllys wrth dy fodd.

Athro da, disgybla ni
Yn dy gariad dwyfol Di,
Fel y gallwn ninnau fod
Yn ein bywyd i Ti'n glod.

Athro da, O! arwain ni
Yn ddiogel, gyda Thi;
Wrth dy ddilyn, gam a cham,
Ni ddaw inni unrhyw nam.

*Ifor Rees.*



## DELYTH

*Doh* G. *Yn llyfn.* *Unsain.* NAN JONES.

𝄋

{ | .d' :t .l ‖ s :— | .f :m .r | d :— | .s, :l,.t, | d :m | r :l, }
Ymunwn gyda'r blodau

{ | d :— | .s, :d .r | m :s | fe :t, | m :— | .m :m .m }
tlws Sy'n rhoi eu gwenau ger y drws; Ein gwên, O!

{ | l :l | s :f | m :— | .d :r .m | f :f | m :r }
Arglwydd, cymer Di Yn ddiolch - garwch gwir i

*Penillion*
1, 2, 3, a 4 *D.S.* *Pennill* 5.

{ | d :— | — : ‖ d :— | — : | s :— | .f :m .r | d :— | .d' :t .l | s :— | .f :m .r | d :— ‖
Ti. . . . . Ti.

Ymunwn gyda'r adar mwyn
Sy'n canu'n bêr ym mrigau'r llwyn;
Ein cân, O! Arglwydd, cymer Di
Yn ddiolchgarwch gwir i Ti.

Ymunwn gyda gwlith y wawr
Sy'n ir dros wyneb daear lawr;
Ein dagrau, Arglwydd, cymer Di
Yn ddiolchgarwch gwir i Ti.

Ymunwn gyda'r awel rydd
Sy'n ysgafnhau pob calon brudd:
Ein calon, Arglwydd, cymer Di
Yn ddiolchgarwch gwir i Ti.

Dy gariad sydd yn llenwi'r byd,
O! am gael profi hwn o hyd;
Ein calon, Arglwydd, cymer Di
Yn ddiolchgarwch gwir i Ti.

*Nellie Jones.*